

Dyddiadur Gweddi

Gyda'r Gronyn hwn heddiw fe ddylech gael copi o'r Calendr Gweddi Misol a baratowyd gan Gyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon. Fe'i bwriedir i'ch helpu i weddio yn benodol dros wahanol bobl a phethau o ddydd i ddydd trwy'r mis. Paratowyd y Calendr y mis hwn gan Mr Cynrig Hughes, Pentir.

Dosbarth Beiblaidd

Cynhelir y Dosbarth Beiblaidd yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Mehefin 3.

Hwn fydd y cyfarfod olaf tan fis Medi.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Mehefin 3: Dosbarth Beiblaidd yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mehefin 7: Gwasanaethir am 9.30 o'r gloch gan y Gweinidog, a chynhelir Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fercher, Mehefin 3: Dosbarth Beiblaidd yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mai 31

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Gwyndaf Jones

Mehefin 7

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. -

Mehefin 14

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Reuben Roberts

Nos Wener, Mehefin 5: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mehefin 7: Cynhelir Cyfarfod Gweddi am 10.00 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. A bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal Mr W M Roberts.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mehefin 7: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Mehefin 7: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg W R Williams.

CARMEL

Nos Wener, Mehefin 5: Cynhelir 'Dwylo Prysyr' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Mehefin 7: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Mehefin 5: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Mai 31

10.00 a.m. - Mr Gwilym C Williams
Dim Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Dewi Jones

Mehefin 7

10.00 a.m. - Cyfarfod Gweddi
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr W M Roberts

Mehefin 14

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 640: Dydd Sul, 31 Mai, 2015

Diwinyddiaeth Blatter

Roedd pleidlais llywyddiaeth FIFA nos Wener yn dipyn o bantomeim. Wedi blynyddoedd o ddadlau poeth ynghylch llygredd honedig yr 'elusen' hon sy'n rheoli pêl-droed y byd, ac ar ddiwedd wythnos a welodd nifer o bobl fwyaf amlwg y mudiad yn cael eu harestio a'u cyhuddo o droseddau ariannol, fe ail etholwyd Sepp Blatter yn Llywydd am y pedair blynedd nesaf. (Siawns nad yw'r ffaith bod FIFA, sy'n ymdrin â mwy na biliwn o bunnoedd bob blwyddyn, yn cael ei gyfrif yn elusen yn awgrymu bod rhywbeth mawr o'i le o fewn y mudiad hwn.)

I'r anghyfarwydd, neu i'r rhai sy'n gweld y byd trwy lygaid Ewropeaidd, roedd ethol Blatter dan y fath gwmwl yn gryn ddirgelwch. Ond er gwaethaf pob llygredd ariannol a phob ymelwa personol honedig, mae'r ffaith fod FIFA, dan arweiniad Blatter, wedi rhoi arian sylweddol i ddatblygu pêl-droed mewn llawer o wledydd yn esbonio teymgarwch cymdeithasau pêl-droed y gwledydd hynny iddo. Na, doedd gan ei wrthwynebydd fawr o obaith i'w ddisodli.

Ac felly, ymddiriedwyd y dasg o roi trefn ar FIFA a'i waredu oddi wrth yr elfennau llygreddig y mae hyd yn oed Blatter erbyn hyn yn cydnabod sy'n rhan ohono, i'r union ddyd a fu'n rheoli'r mudiad ers 16 o flynyddoedd. Wn i ddim oll am argyhoeddiadau neu ddiffyg argyhoeddiad crefyddol Mr Blatter, ond fe ddysgais gryn dipyn am

ei ddiwinyddiaeth. A deud y gwir, mae elfennau cyfarwydd iawn i'r ddiwinyddiaeth honno. Dowch i mi nodi tri pheth i ddangos hynny.

Yn gyntaf, mynnodd Blatter trwy'r wythnos mai 'lleiafrif bychan' o fewn FIFA a'r byd pêl-droed sy'n llygreddig. Nos Wener, fe'i clywyd yn dweud nad yw ef, mwy na neb arall, yn berffaith; ond doedd hynny ddim yn golygu ei fod yn cydnabod unrhyw fai. Dyma ddiwinyddiaeth boblogaidd pobl sy'n cydnabod nad ydyn nhw'n berffaith ond na allan nhw dderbyn am un eiliad yr hyn a ddywed y Beibl am bob un ohonom yn llygreddig ac euog yng ngolwg Duw. Mae'r syniad o 'bechod gwreiddiol' yn ddiethr i Blatter.

Yn ail, mae Blatter yn credu y gall o ei hun lanhau FIFA a'i waredu o'r llanast y mae ynddo. Mae'n hyderus nad oes modd ei feio fo am unrhyw beth, ac yn mynnu mai fo yw'r dyn i docio a phuro FIFA. Mae'r ymdeimlad o angen am gymorth a gwaredigaeth o'r tu allan i ni ein hunain yn ddiethr i Blatter.

Ac yn drydydd, wrth sôn am 'ddod â chwch FIFA yn ôl i'r lan' soniodd Blatter am gael 'Duw neu Allah neu bwy bynnag yw'r ysbryd rhyfeddol sydd yn y byd' i'w helpu. Yn amlwg, mae'r syniad o un Duw, y gwir a'r bywiol Dduw, yn ddiethr i Blatter.

Mwy nag un duw; cyfiawnhad trwy weithredoedd; a gwadu pechod gwreiddiol: diwinyddiaeth Blatter!

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 gan Mr Gwilym Charles Williams, Llandudno, ac am 5.00 o'r gloch gan Mr Dewi Jones, Pwllheli.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Gwyndaf Jones, Bangor.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams.

Cynhelir oedfa yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch.

Diolch

Diolch yn fawr iawn i bawb sy'n arwain yr oedfaon yng nghapeli'r Ofalaeth heddiw. Estynnwn groeso cynnes i chi gan obeithio y byddwch yn gartrefol yn ein plith ac y profwch fendith newydd yn ngwaith yr Arglwydd.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd. Gweddiwn am gynhaliath ac adferiad i gyfeillion ac aelodau'r eglwysi.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Mr John Maxwell, 4 Tan y Foel, Gallt y Foel, Deiniolen a fu farw ddydd Gwener, Mai 22 yn 75 mlwydd oed.

Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Llandinorwig fore ddoe dan arweiniad ei gefinder, y Parchg Dewi Morris, y Parchg Ganon Idris Thomas a'r Parchg John Pritchard.

Estynnwn ein cydymdeimlad i'w briod, Mrs Elizabeth Maxwell, a'u meibion, Haydn, Tony a Gwynant a'u teuluoedd, ac i'w chwaer, Mrs Sylvia Jones, 4 Tai Marian, Deiniolen.

'Dechreuadau'

Cynhaliwyd pedwerydd sesiwn 'Dechreuadau' yn Nhalybont ddydd Mercher diwethaf.

Hwn oedd yr olaf o'r cyfarfodydd hyn am y tro, ond penderfynwyd y bydd y cyfeillion a fu'n cyfarfod bob wythnos dros y mis diwethaf yn dod at ei gilydd eto yn mis Medi neu fis Hydref.

Yn y cyfamser, caiff y rhai a fu yno'n cynrychioli'r eu heglwysi gyflwyno'r hyn a drafodwyd i'w cyd-aelodau yn eu heglwysi unigol. Cawn drefnu hynny mor fuan â phosibl dros yr wythnosau nesaf.

Bwriad y cyfarfodydd oedd ein hysgogi i feddwl o'r newydd am fywyd yr eglwysi a'n haddoliad a'n cenhadaeth, ac mae'n siwr y byddai pawb a fu yno yn cytuno ein bod wedi cael cyfarfodydd buddiol dros ben.

Croeso

Dymunwn yn dda i denantiaid newydd Tŷ Capel Carmel, Llanllechid. Wrth groesawu Fiona Sherlock a'i merch Lowri, dymunwn bob hapusrwydd a bendith iddynt yn eu cartref newydd.

Cwpan Efe

Daeth noson Cwpan Efe yn noson go bwysig i blant yr Ysgolion Sul ers sawl blwyddyn, ac mae dyddiad y noson wedi ei osod ar gyfer eleni.

Cynhelir y gystadleuaeth bel droed 5 yr ochr hon ar gae Ysgol Gynradd Llanrug nos Iau, Mehefin 25.

Mae'r gystadleuaeth ar gyfer ysgolion Sul cylch Efe, ond mae croeso cynnes i ysgolion Sul o glych ehangach i gymryd rhan. Plant blynyddoedd ysgol 3, 4, 5 a 6 fydd yn cymryd rhan eleni eto. Ceir rhagor o fanylion gan Andrew Settree (07929 916 181).

Cwpan CIC

Cystadleuaeth boblogaidd arall a drefnir bob blwyddyn gan Trobwynt yw Cwpan CIC, i dimau pel droed 5-yr ochr oed uwchradd (Blwyddyn 7-10). Bydd croeso i dimau o bob rhan o'r Gogledd.

Caiff ei chynnal eleni, fel y llynedd, yn Abererch, ar dir Canolfan Gristnogol Tŷ Nant nos Iau, Gorffennaf 9.

Cafwyd noson lwyddiannus iawn yno'r llynedd ac edrychwn ymlaen at noson yr un mor llwyddiannus eleni.

Andrew sy'n trefnu'r gystadleuaeth hon hefyd gan ei fod yn parhau i weithio i Trobwynt yn ogystal ag i Efe.

Cyfarfodydd Blynyddol

Undeb yr Annibynwyr

Cynhelir Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg eleni yn Nant Gwrtheyrn o ddydd Iau, Gorffennaf 2 hyd ddydd Sadwrn, Gorffennaf 4.

Hwn fydd y tro cyntaf i'r Annibynwyr, neu unrhyw enwad arall o ran hynny, gynnal eu cyfarfodydd blynyddol yn Nant Gwrtheyrn.

Diwrnod Bach i'r Brenin Mawr

Daw Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr i ben gyda 'Diwrnod Bach i'r Brenin Mawr', a gynhelir yn Nant Gwrtheyrn ddydd Sadwrn, Gorffennaf 4.

Diwrnod o addoliad a mwynhad fydd hwn i blant, ieuentid a phobl o bob oed. Bydd yno weithgareddau arbennig ar gyfer y gwahanol oeddrannau, a chyfle i addoli mewn arddull fywiog a ffres. Bydd y pwyslais ar gyflwyno neges y Beibl a dysgu am yr Efengyl.

Trefnodd Undeb yr Annibynwyr o leiaf ddau 'Ddiwrnod i'r Brenin' ar Faes Y Sioe Amaethyddol yn Llanellwedd y blynyddoedd diwethaf yma. Bu'r ddau ddigwyddiad hynny'n llwyddiannus iawn, gyda channoedd o bobl yn teithio yno o wahanol rannau o'r wlad. Ond roedd llawer yn dweud bod Llanellwedd yn bell iawn o'r Gogledd a'i bod felly'n anodd iawn i bobl y Gogledd fedru mynd yno. Oherwydd hynny yn rhannol y penderfynwyd cynnal y digwyddiad hwn yn Nant Gwrtheyrn, i roi cyfle i bobl y Gogledd fod yn rhan o'r hwyf a'r cyffro heb orfod teithio'n rhy bell.

Bydd y gweithgareddau'n cychwyn am 10.30 o'r gloch y bore ac yn dod i ben am 4.00 o'r gloch y prawn.

Daw rhagor o fanylion yn y man.